Penderfyniadau Anodd 2018-20



Ymgynghori ar ein cynlluniau i ail-lunio gwasanaethau'r Cyngor i ateb yr her ariannol a'r cynigion ar gyfer cyllideb 2018-20

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

Cyflwyniad



Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol iawn fod Awdurdodau Lleol yn parhau i wynebu gostyngiadau yn yr arian a dderbynnir gan y Llywodraeth Ganolog, sy'n golygu bod yn rhaid i Gynghorau barhau i chwilio am ffyrdd o weithredu a chyflenwi gwasanaethau er bod cyllidebau yn parhau i fod o dan bwysau. Yn Wrecsam mae ein cynllun ariannol tymor canol yn dangos y bydd diffyg o tua £13 miliwn yn y cyfnod 2018 – 2020. Mae hyn ar ben y £18 miliwn sydd eisoes wedi eu harbed dros y tair blynedd diwethaf. Ar y cyfan rydym wedi gorfod gwneud arbedion o £52 miliwn ers 2008.

Rydym yn ymroddedig i gyflenwi'r gwasanaethau a amlinellir yng Nghynllun ein Cyngor. Rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella ein gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithlon er mwyn blaenoriaethu (i'r graddau bod hynny'n bosibl) ein gwasanaethau rheng-flaen. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio, ac adolygu lefelau a strwythurau staffio er mwyn lleihau costau gan gyflenwi ein gwasanaethau a ail-luniwyd mewn ffordd effeithiol ar yr un pryd. Rydym hefyd yn ymroddedig i sicrhau ein bod yn gallu ateb eich ymholiadau ar y pwynt cyswllt cyntaf lle bo hynny'n bosibl, a chynyddu nifer ein gwasanaethau ar-lein (yn unol â'r byd o'n cwmpas).

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydych wedi rhoi eich barn am ein cynigion ar gyfer arbedion yn ein hymgynghoriadau blynyddol ar y gyllideb (Penderfyniadau Anodd). Mae eich adborth, meddyliau ac awgrymiadau wedi bod yn hollbwysig wrth i ni wneud penderfyniadau am y cyllidebau a bennwyd gennym bob blwyddyn. Maent hefyd wedi helpu i lywio'r ffordd rydym yn ceisio chwilio am arbedion yn y dyfodol a gweddnewid y ffordd rydym yn gweithio.

Mae nifer o'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu cyflwyno i chi fel gwybodaeth yn unig. Nid ydym yn credu y byddant yn cael unrhyw effaith arnoch chi (fel defnyddwyr gwasanaethau); fodd bynnag rydym am ddweud cymaint â phosibl wrthych am y gwaith rydym yn ei wneud y tu ôl i'r llenni. Yn ogystal â chlywed eich barn ar gynigion penodol, rydym yn awyddus i glywed unrhyw awgrymiadau eraill sydd gennych am newidiadau y gallem eu gwneud er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n ein hwynebu.

Unwaith yn rhagor, mae penderfyniadau anodd i'w gwneud ac mae arnom angen gwybod eich barn. Bydd eich adborth chi, ynghyd ag adborth a gesglir gan ymgynghoriadau eraill ar gynigion unigol, oll yn cael eu hystyried cyn i ni wneud ein penderfyniadau terfynol ar gyllideb 2018-19 a'r cynigion mewn egwyddor ar gyfer arbedion yn 2019-20 yn Ionawr a Chwefror 2018.


Diolch yn fawr

M Pritchard

Y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd y Cyngor

Y Gyllideb Bresennol

Yn y flwyddyn ariannol bresennol (2017/18) cyfanswm cyllideb y Cyngor yw £225 miliwn. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys £169 miliwn o arian Llywodraeth Cymru a £56 miliwn a ddaw o Dreth y Cyngor. Mae'r siart isod yn dangos cyfran y gyllideb a gaiff ei gwario ar feysydd gwasanaeth gwahanol ar draws y Cyngor.



£30.9m	Amgylchedd a Chynllunio
£6.54m	Tai ac Economi
£39.02m	Gofal Cymdeithasol i Oedolion
£13.91m	Gofal Cymdeithasol i Blant
£5.12m	Addysg
£79.65m	Ysgolion
£5.25m	Cyllid
£6.99m	Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
£10.38m	Corfforaethol a Chanolog – cynllun lleihau treth y cyngor
£9.09m	Corfforaethol a Chanolog – arall
£6.57m	Corfforaethol a Chanolog – ardoll tân
£10.03m	Corfforaethol a Chanolog – ariannu a buddsoddiad
£1.87m	Atgyweirio a Chynnal

Nid yw'r ffigur ar gyfer Tai ac Economi yn cynnwys y gyllideb ar gyfer tai cymdeithasol y Cyngor gan fod yr arian hwn yn dod o'r Cyfrif Refeniw Tai sydd yn gyllideb wedi'i chlustnodi.*

Corfforaethol a Chanolog - Mae Arall yn cynnwys arian ar gyfer Gwasanaeth Crwner Gogledd Cymru (Dwyrain a Chanolog), costau contract Rheolaeth Hamdden, taliadau banc, yswiriant, ffioedd archwilio allanol, lwfansau Aelodau a Rheolaeth Strategol.
Mae'r gyllideb Atgyweirio a Chynnal yn cynnwys yr holl adeiladau sydd yn berchen i'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion lle maent yn prynu gwasanaeth cynnal yn ôl (ac eithrio tai cymdeithasol sydd yn berchen i'r Cyngor).

Mae'n rhaid gwario cyfran fawr o gyllideb y Cyngor ar y gwasanaethau rheini y mae'n ofynnol i ni eu darparu yn ôl y gyfraith (fel ysgolion a gofal cymdeithasol i blant ac oedolion sy'n agored i niwed). At hynny, mae costau eraill y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu (fel gwaredu gwastraff, costau ariannu dyledion a budd-daliadau tai). Felly, er ein bod yn gwella effeithlonrwydd ar draws pob maes gwasanaeth, golyga hyn fod yn rhaid i fwyafrif ein harbedion ddod o'r meysydd gwasanaeth rheini nad ydynt yn orfodol.

Y Dyfodol

Er bod yr heriau sy'n ein hwynebu yn rhai sylweddol, gallwn fynd i'r afael â nhw gyda'ch cymorth chi. Mae a wnelo'r broses ail-lunio hon â mwy nag arbedion ariannol, mae hefyd yn ymwneud ag ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth, bod yn sefydliad modern ac addas i'r pwrpas, a gweithio'n agos gyda'n partneriaid a chymunedau. Mae'r Cyngor yn newid, a rhan o'r newid hwn yw rhoi mwy o gyfle i bobl leol gymryd rhan yn y gwaith o wella gwasanaethau ac ansawdd bywyd eu cymunedau.

Yr Ymgynghoriad hwn

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys cynigion ar gyfer arbedion i'r gyllideb a syniadau am sut i gynhyrchu incwm, ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae'r arbedion hyn yn cael eu cynnig ar gyfer eu gweithredu yn ystod blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20.

Rydym wedi trefnu'r ymgynghoriad gan ddilyn themâu Cynllun ein Cyngor: Yr Economi, Pobl, Lle a Sefydliad. Mae hyn er mwyn dangos yn fwy clir i chi sut mae pob un o'r adrannau (a'r cynigion ar gyfer pob un) yn cyfrannu at ein cynllun cyffredinol a'r canlyniadau sy'n cael blaenoriaeth.

Mae nifer o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghorol hon yn ymwneud â newid a/neu leihau lefelau staffio. Rydym wedi rhoi gwybod i'r aelodau staff rheini a allai gael eu heffeithio a bydd prosesau Adnoddau Dynol (AD) priodol yn dechrau maes o law.

Rydym wedi cynnwys nifer o gynigion yn y ddogfen ymgynghorol hon er gwybodaeth yn unig. Er ein bod yn awyddus i roi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi, a rhannu ein cynlluniau ail-lunio â chi yn eu cyfanrwydd, rydym yn hyderus na fydd y cynigion rydym wedi eu cynnwys o dan y pennawd 'Rhoi Gwybod i Chi' yn effeithio ar y cyhoedd na defnyddwyr gwasanaeth penodol.

Yn ail, o dan y pennawd 'Dywedwch Eich Barn', mae nifer o gynigion rydym yn awyddus i glywed eich barn amdanynt; felly dywedwch wrthym i ba raddau rydych chi'n cytuno y dylid eu gweithredu, ac esboniwch eich rhesymau am hynny.

Yn olaf, o fewn pob adran o'r ymgynghoriad, yn ogystal â'r cynigion rydym yn eu cyflwyno, rydym yn awyddus i glywed am unrhyw awgrymiadau eraill sydd gennych ar gyfer cynhyrchu arbedion neu incwm ychwanegol; neu ar gyfer gwella'r ffordd rydym yn gweithio.

Bydd fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r canlyniadau ac yn cyflwyno'r canfyddiadau i'r holl Aelodau Etholedig mewn gweithdy a thrwy gyfres o adroddiadau ar ddechrau mis Rhagfyr 2017. Bydd y canfyddiadau hyn yn galluogi'r Aelodau Etholedig i wneud penderfyniadau gwybodus am y gyllideb ar gyfer 2018/19 a 2019/20. Cyflwynir y gyllideb gerbron y Bwrdd Gweithredol ym mis Ionawr 2018 ar gyfer ei chymeradwyo, ac yna caiff ei chadarnhau'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2018. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi gwybod i chi am ganlyniadau'r ymgynghoriad yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Gweithredol ym mis Ionawr; ac ar ôl i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud, byddwn yn llunio adroddiad o'r enw 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' er mwyn rhoi gwybod i chi am gynnydd pob un o'r cynigion, a sut wnaeth eich barn chi ddylanwadu ar y penderfyniadau rydym wedi eu gwneud.

Er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf gallwch ein dilyn ni ar Twitter neu Facebook, a chadwch lygad ar ein gwefan a'r wasg leol. Gallwch hefyd fynegi eich diddordeb mewn cyfleoedd ymgynghori ac ymgysylltu yn www.yourvoicewrexham.net


Gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad mewn sawl ffordd.

1. Cwblhewch yr arolwg – **un ai arlein neu ar bapur.**
2. Byddwn yn ymgynghori yn fwy manwl ynghylch rhai o'r cynigion hyn gyda defnyddwyr gwasanaeth – a bydd yr ymgynghoriadau hyn yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.
3. Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn **'Dywedwch eich Barn'. Anecs y 3ydd Llawr. Neuadd y Dref. Wrecsam. LL11 1AY**
4. Neu anfonwch neges e-bost atom **telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk** (gan nodi 'Penderfyniadau Anodd' ar eich gohebiaeth)

Dyddiad cau yr ymgynghoriad hwn yw **30 Tachwedd 2017.**

Er ein bod yn croesawu ac yn ystyried pob barn a dderbynnir, dylem nodi na allwn ateb cwestiynau neu sylwadau unigol a anfonir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Yr Economi



Rydym am helpu i greu economi gynaliadwy a ffyniannus; gan olygu bod pobl am fyw, gweithio, dysgu, ymweld â'r sir a buddsoddi yma. Rydym eisiau i Wrecsam fod yn lle gall busnesau sefydlu a thyfu, gan helpu i daclo tlodi.

Yr Adran Tai a'r Economi

Mae'r Adran Tai a'r Economi yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o wasanaethau gyda'r nod pennaf o wella cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl leol, darparu tai a chyfleusterau cymunedol pwysig a hyrwyddo'r Fwrdeistref Sirol fel lle i fyw, gweithio ac ymweld â hi.

Mae'r adran yn ysgogi adfywiad sy'n cael ei arwain gan dai drwy fodloni anghenion tai preswylwyr, addasu tai er mwyn galluogi pobl i fyw'n annibynnol a darparu cyngor a llety dros dro i bobl ddigartref. Mae'n gweithio i ddenu buddsoddiad newydd i sefydlu a thyfu yn y Fwrdeistref Sirol, gwella cyfleoedd gwaith a'r economi leol. Yn ogystal, mae'n gweithio gyda chymunedau lleol i reoli cyfleusterau allweddol fel canolfannau adnoddau, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a datblygu'r celfyddydau. Mae'n gyfrifol hefyd am wella a rheoli holl dai ac eiddo eraill sy'n berchen i'r Cyngor, a chyflenwi prydau ysgol.

O ran adfywio, mae cael y cynnig tai cywir (gan gynnwys tai fforddiadwy) yn hanfodol er mwyn denu a chadw gweithlu medrus a fydd yn ei dro yn annog buddsoddiad mewnol.

Yn y dyfodol bydd yr adran yn canolbwyntio ar weithio'n agosach â sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn sicrhau bod cyflenwad ac ansawdd tai yn diwallu anghenion lleol, gan barhau i dargedu gwelliannau yn yr economi, gwella ansawdd yr amgylchedd lleol a chefnogi pobl leol i elwa ar gyfleoedd economaidd newydd. Bydd yn parhau i reoli llyfrgelloedd, canolfannau adnoddau ac amgueddfeydd, cefnogi cymunedau lleol i ddod yn gyfrifol am redeg cyfleusterau lleol lle bo'n bosibl; a pharhau i ddatblygu'r celfyddydau drwy ddatblygiad sylweddol ym Marchnad y Bobl.

Rhoi gwybod i chi

1) **Adolygiadau o'r gwasanaethau**
Bydd yr Adran Tai ac Economi hefyd yn gwneud arbedion drwy newid arferion gweithio a threfniadau staffio. Bydd yr arbedion hyn mewn gwahanol feysydd yn yr adran ond ni fydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar ei gallu i gyflenwi gwasanaethau yn y meysydd hyn, ac felly ni fydd unrhyw effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £183,000 yn 2018/19 a £10,000 ychwanegol yn 2019/20.**

2) **Cael gwared â Chanolfannau Cymunedol**
Mae nifer o ganolfannau cymunedol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn cael eu rhedeg gan Gynghorau Cymuned. Fodd bynnag, mae rhai canolfannau cymunedol nad ydynt yn cael eu defnyddio, ond sydd yn parhau yn eiddo i'r Cyngor. Cynigir bod adeiladau'r canolfannau cymunedol hyn (h.y. Kingsley Circle, Abenbury a Penycae) un ai yn cael eu trosglwyddo i drydydd parti erbyn 31 Mawrth 2018 neu ein bod yn ystyried eu gwaredu neu ddymchwel. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £3,000 yn 2018/19 a £11,000 ychwanegol yn 2019/20.**

3) **Prydau Ysgol**
Ar hyn o bryd, cost prydau ysgol yw £2.30 i fabanod a £2.35 i blant iau. Byddwn yn cyflwyno cynnydd o 2% yn 2018/19 a fydd yn arwain at godiad o 5c. Yn 2019/20, bydd y costau yr un fath, ac felly bydd cost prydau babanod yn unig yn codi 5c. Mae hyn yn godiad sydd yn cael ei gyflwyno i brydau ysgol bob blwyddyn, gan fod costau darparu prydau ysgol (e.e. costau cyflenwyr) yn codi. Ni fydd hyn yn effeithio ar gymhwysedd Prydau Ysgol am Ddim. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £15,000 yn 2018/19 a £7,000 ychwanegol yn 2019/20.**

Dywedwch Eich Barn

4) **Cyflwyno Tâl ar gyfer Toiledau Cyhoeddus**
Mae'r Cyngor yn rheoli nifer o Doiledau Cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae tâl yn cael ei godi am ddefnyddio Toiledau Cyhoeddus Canol y Dref (Stryt Henblas a Rhodfa San Silyn). Cynigir ein bod yn cyflwyno tâl o 20c yn y Toiledau Cyhoeddus yn Nhrefor, Y Waun a Froncysyllte i dalu am gostau glanhau a staffio. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £5,000 yn 2018/19.**

5) Brecwast am ddim

Mae'r cynllun Brecwast ar hyn o bryd yn cael ei gynnig am ddim mewn 50 ysgol gynradd. Er mwyn darparu brecwast iach am ddim cyn dechrau'r diwrnod ysgol, mae'n rhaid i'r cynllun brecwast fod ar gael am hanner awr yn unig. Cyflogir staff am awr yn y bore, gan ddarparu gofal plant am ddim i bob pwrpas rhwng 7.50 a 8.20, cyn y sesiwn brecwast am ddim rhwng 8.20 a 8.50.

Cost gyfredol darparu'r gwasanaeth hwn yw £636k. Cynigir ein bod yn parhau i gynnig y Cynllun Brecwast o fis Medi 2018 rhwng 7.50 a 8.50 ond byddai'n cynnwys dwy elfen. Byddai'n cynnig gwasanaeth gofal plant rhwng 7.50 a 8.20 (a fyddai'n costio £1) a brecwast iach rhwng 8.20 a 8.50 (a fyddai'n parhau i fod am ddim). Os bydd plentyn yn cyrraedd ar ôl 8.20 ni fydd tâl, ond os yw rhieni am fanteisio ar y cynllun ac anfon y plentyn rhwng 7.50 a 8.20 yna cynigir y dylid codi tâl o £1 y plentyn.

Byddem yn codi tâl ar gyfer yr elfen gofal plant yn unig (h.y. rhwng 7.50 a 8.20) er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy. Byddai'r Cyngor yn dal i gyfrannu at y cynllun a byddai cyfraniadau rhieni yn helpu i sicrhau bod y gost gyffredinol i'r Cyngor yn llai nag ydyw ar hyn o bryd. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £106,000 yn 2018/19 a £52,000 ychwanegol yn 2019/20.**

6) Adolygiad Gwasanaeth llyfrgelloedd

Mae Cyngor Wrecsam yn rheoli llawer o lyfrgelloedd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Er bod rhaid i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth llyfrgell, ein penderfyniad ni yw sut rydym yn darparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2018/19, mae'r Cyngor yn gwneud arbedion o £57,000 o fewn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd; serch hynny, fe hoffem glywed eich barn chi ar newidiadau arfaethedig pellach i'r gwasanaeth. Fe gynigir bod adolygiad llawn o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cael ei gynnal dros y ddwy flynedd nesaf i sicrhau ei fod yn gost effeithiol a'i fod yn addas i'r diben. Efallai y bydd hyn yn golygu edrych ar newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau presennol, gan gynnwys newid lleoliadau, hygyrchedd at y gwasanaethau a modelau eraill o weithredu, gan gynnwys perchenogaeth gymunedol. Yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, efallai y bydd angen buddsoddiad i ymateb i unrhyw newidiadau gwasanaeth arfaethedig a fydd yn deillio o'r adolygiad i alluogi CBSW i gynnal gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gweladwy a hyfyw sydd yn cyrraedd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Pobl



Rydym eisiau cefnogi cymunedau gweithgar a hunan-ddibynnol tra'n diogelu'r rhieni sydd mewn angen ar yr un pryd. Rydym eisiau cefnogi pobl i fagu dyheadau positif, ac i ddysgu a chyflawni eu potensial. Rydym eisiau i bobl Wrecsam fyw bywydau actif ac annibynnol yn eu cymunedau. Rydym eisiau diogelu'r rheini sy'n agored i niwed gan weithio gyda'n partneriaid i wneud Wrecsam yn lle diogel lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Rydym eisiau sicrhau bod gan bobl fynediad at weithgareddau hamdden a diwylliannol.

Adran Gofal Cymdeithasol i Blant

Mae'r Adran Gofal Cymdeithasol i Blant yn darparu amrediad o wasanaethau cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gan gynnwys: gwasanaethau Maethu a Mabwysiadu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal nad ydynt yn gallu aros gyda'u teuluoedd am amryw o resymau; Diogelu sef rheoli achosion amddiffyn plant lle mae plant mewn perygl o ddioddef niwed neu esgeulustod; a gwasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n cynnwys darparu gwasanaethau drwy ein Canolfannau i Deuluoedd, rhaglenni ymyrraeth gynnar ac amryw o wasanaethau cymorth ar gyfer Plant sydd Angen Gofal a Chymorth.

Yr her i'r Adran Gofal Cymdeithasol yw ateb y galw cynyddol am wasanaethau mewn hinsawdd o gyllidebau llai. Yn y dyfodol byddwn yn canolbwyntio ar weithio'n agos gyda phartneriaid a darparwyr i nodi a diwallu anghenion lefel is, a chynnig gofal arbenigol, gwybodaeth a chymorth yn gynt, er mwyn galluogi teuluoedd i ymdopi'n well â heriau bob dydd a lleihau'r angen am ymyrraeth arbenigol.

Bydd yr adran yn parhau i flaenoriaethu diogelu ac amddiffyn plant sydd mewn perygl o ddioddef niwed ac esgeulustod drwy ein timau gwasanaethau plant. Rydym hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid ac adrannau eraill i ddatblygu amrediad o leoliadau a dewisiadau tai ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac anableddau dwys, pobl dros 16 oed, a'r rheini sydd arnynt angen lleoliadau rhiant a baban.

Mae gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016 wedi ehangu ein dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i deuluoedd er mwyn diwallu eu hanghenion eu hunain lle bo hynny'n bosibl.

Rhoi Gwybod i Chi

1) **Lleoliadau tu hwnt i'r Sir**
Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu llety ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny sydd yn y system ofal. Mae gofalwyr maeth a gyflogir gan y Cyngor yn gofalu am y rhan fwyaf o'n plant a phobl ifanc 'sy'n derbyn gofal'. Fodd bynnag, mae gennym rai plant a phobl ifanc na ellir diwallu eu hanghenion drwy ein gwasanaethau mewnol ac maent yn cael eu rhoi mewn lleoliadau preswyl y tu allan i'r ardal. Wrth i'r niferoedd yn y system ofal barhau i godi, mae'r galw am leoliadau preswyl wedi cynyddu hefyd. Cynigir y gellir lleihau'r gwariant ar y lleoliadau hyn y tu allan i'r sir drwy sicrhau bod cymorth ar gael, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, sy'n galluogi plant i aros gyda'u teuluoedd, ac os nad yw hyn yn bosibl bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn gallu derbyn gofal mewn lleoliadau yn Wrecsam. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £100,000 yn 2018/19.**

2) **Adolygu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**
Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam yn darparu cyngor a gwybodaeth am ddim ar amrywiaeth eang o ddewisiadau gofal plant a gweithgareddau i rieni / gofalwyr plant a phobl ifanc hyd at 20 oed. Cynigir y gellid lleihau'r rolau rheoli o fewn y gwasanaeth hwn gan leihau costau tra'n ein galluogi i barhau i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y maes gwasanaeth (ac yn unol â'n dyletswyddau statudol). **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £20,000 yn 2018/19.**

3) **Adolygu Contract Tanydre**
Mae Tanydre yn lleoliad preswyl a gaiff ei brynu yn allanol ac roedd yn rhan o gontract a gomisiynwyd yn flaenorol. Credwn y gallwn wneud arbedion ar y contract hwn heb gael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £75,000 yn 2018/19.**

Dywedwch eich Barn

4) Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn anodd dod o hyd i leoliadau maeth addas ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, neu'r rheini sydd angen eu lleoli gyda brodyr/chwiorydd. Cynigir ein bod yn codi'r ffioedd rydym yn eu talu i ofalwyr maeth a gyflogir gan y Cyngor os byddant yn darparu lleoliadau ar gyfer y plant hyn. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r swm rydym yn ei wario ar leoliadau maeth annibynnol. Bydd y cynnig hwn hefyd yn ychwanegu at gapasiti'r gwasanaeth drwy gynyddu nifer y gofalwyr maeth sydd ar gael i blant yn Wrecsam. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £10,000 yn 2018/19 a £10,000 ychwanegol yn 2019/20.**

5) Grantiau Gofal Plant Cynaliadwy

Mae Grantiau Gofal Plant Cynaliadwy yn ddyraniadau ariannol bach a roddir yn uniongyrchol i ddarparwyr gofal plant preifat er mwyn eu helpu i sicrhau bod eu busnesau yn gynaliadwy. Cynigir rhoi'r gorau i ddyrannu'r Grantiau Gofal Plant Cynaliadwy. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £10,000 yn 2018/19 a £10,000 ychwanegol yn 2019/20.**

6) Hyfforddiant Gofal Plant a Ariennir gan y Cyngor

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu nawdd i hyfforddi darparwyr gofal plant preifat. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Cynigir dod â'r nawdd hwn i ben gan olygu y bydd yn rhaid i weithlu'r sector preifat ariannu'r hyfforddiant hwn mewn ffordd arall. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £10,000 yn 2018/19 a £10,000 ychwanegol yn 2019/20.**

Yr Adran Addysg

Mae'r maes gwasanaeth hwn yn canolbwyntio ar wella profiadau a deilliannau addysgol pob dysgwr a sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc ddyheadau cadarnhaol, a'u bod yn dysgu a chyflawni eu potensial. Er mwyn parhau i wneud hyn yn effeithlon, â llai o adnoddau ac wrth i'r boblogaeth dyfu, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n hysgolion a phartneriaid eraill, ac yn benodol GwE , y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, i gyflenwi gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, gan wneud y defnydd gorau o'r arbenigedd sydd ar gael i rannu arfer gwych. Byddwn yn parhau i helpu ysgolion a darparwyr eraill i wella eu hunain ac arloesi. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r bobl sydd fwyaf agored i niwed a thargedu ein cymorth yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf, er mwyn i bob dysgwr gael mynediad at gyfleoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol o'r radd flaenaf.

Rhoi Gwybod i Chi

1) **Ail-lunio Gwasanaethau Cyfoethogi ac Ymyrraeth Addysg**
   Mae Cyfoethogi ac Ymyrraeth Addysg yn cynnwys gwasanaethau Iechyd a Lles pobl ifanc, Addysg Awyr Agored, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Gwasanaethau Ieuenctid sy'n seiliedig yn y Gymuned, Gwasanaethau Chwarae a'r Gwasanaeth Addysg Lles Cymdeithasol. Dyma'r 3edd flwyddyn o gynllun ail-lunio tair blynedd sy'n ystyried sut gall y gwasanaethau hyn weithio'n wahanol er mwyn cynnig darpariaeth o ansawdd mewn ffordd fwy effeithlon. Cynhaliwyd rhaglen ymgynghori gynhwysfawr gyda defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau, staff a rhan-ddeiliaid eraill er mwyn sicrhau bod eu barn wedi eu hystyried. **Rhagwelir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £167,000 yn 2018/19.**

2) **Gwneud y defnydd mwyaf o arian grant / sicrhau dulliau ariannu eraill**
   Mae nifer o swyddi o fewn yr Awdurdod yn bodoli oherwydd yr angen i gyflenwi rhaglenni gwaith penodol. Mae cyfle i ddefnyddio arian grant i ddarparu'r gyllideb ar gyfer swyddi o'r fath, gan ryddhau cyllidebau staffio craidd ar gyfer arbedion.
   Rhagwelir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £77,000 yn 2018/19

Dywedwch Eich Barn

3) **Y Gwasanaeth Cerdd**
   Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cerdd cynhwysfawr iawn i ysgolion sy'n cynnwys hyfforddiant offerynnol peripatetig (h.y. tiwtoriaid yn ymweld ag ysgolion gwahanol), hwyluso cerddorfeydd a chorau ieuenctid i nifer o ddisgyblion ar draws y Fwrdeistref. Nid yw hwn yn wasanaeth statudol ac felly cynigir bod y Cyngor yn rhoi'r gorau i dalu am y gwasanaeth cerdd. Gall ysgolion ddewis defnyddio eu harian eu hunain er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn; fodd bynnag, os byddant yn dewis peidio â gwneud hyn, ni fyddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu bellach.
   Rhagwelir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £300,000 yn 2019/20.

4) **Cyllideb Ysgolion**

Mae'r Cyngor wedi gwarchod cyllidebau ysgolion am nifer o flynyddoedd. Cynigir bod cyllidebau ysgolion yn cael eu gwarchod ac yn derbyn yr un dyraniad â 2017/18 ond na fyddant yn codi dros y ddwy flynedd nesaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i ysgolion ymateb i bwysau twf a chwyddiant yr amcangyfrifir eu bod yn **£1,158,000** yn **2018/19** a **£1,408,000** ychwanegol yn **2019/20**. Ymgynghorwyd â'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion ynglŷn â'r cynnig hwn.

Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn hybu annibyniaeth a llesiant pobl hŷn ac oedolion ag anableddau dysgu, problemau corfforol, synhwyraidd a niwrolegol, ac iechyd meddwl. Mae'r maes gwasanaeth hwn yn darparu neu'n trefnu amryw o wasanaethau cymorth fel ail-alluogi, gofal yn y cartref, gofal dydd a chyfleoedd gwaith, cymorth i ofalwyr, gofal preswyl/nyrsio a chyfarpar ac addasiadau i'r cartref. Mae'n gweithio gyda'r trydydd sector a'r sector annibynnol i ddarparu gwasanaethau ar ran y Cyngor. Mae amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn gyfrifoldeb allweddol o fewn y gwasanaeth hwn.

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn canolbwyntio ar hybu annibyniaeth unigolion yn eu cartrefi eu hunain. Rydym yn gweithio'n galed i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl; ac i gefnogi hyn rydym yn bwriadu buddsoddi mewn adeilad gwasanaeth Rhannu Bywydau estynedig gan adeiladu ar lwyddiant y gwasanaeth hyd yma ac rydym yn cynyddu nifer yr Asiantwyr Cymunedol ar draws Wrecsam er mwyn helpu pobl i ddod i gysylltiad â chymorth yn eu cymunedau lleol. Rydym yn galluogi pobl i wneud defnydd llawn o'u galluoedd a chapasiti, neu eu hailddarganfod. Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gan roi sylw penodol i wasanaethau ataliol er mwyn atal argyfyngau rhag digwydd a galluogi pobl i ddod yn fwy cydnerth. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid (e.e. y Trydydd Sector a darparwyr preifat) i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau ac i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol drwy gynnig gwasanaethau ailalluogi, gofal canolraddol a'r trydydd sector. Mae'r adran yn rhoi llawer o bwyslais ar ailalluogi ac atal yr angen am 'wasanaethau traddodiadol' a'r ddibyniaeth arnynt.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i flaenoriaethu'r rheini sydd yn fwy agored i niwed ac sydd yn debygol o fod mewn perygl. Drwy gynnal asesiadau angen unigol byddwn yn sicrhau bod pobl sydd arnynt angen gofal a chymorth mwy arbenigol yn derbyn gwasanaethau sy'n bodloni eu gofynion boed hynny gan yr Awdurdod Lleol, darparwyr preifat, annibynnol neu nid-er-elw. Mae'r dull hwn o weithio yn adeiladu ar newidiadau a gynlluniwyd sydd wedi digwydd eisoes o fewn yr Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion dros y blynyddoedd diwethaf wrth ragweld y galw cynyddol a heriau ariannol a chymdeithasol y dyfodol.

<u>Rhoi Gwybod i Chi</u>

Yn ogystal ag adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, y lefel a'r math o gymorth sydd ar gael, rydym hefyd yn bwriadu gwneud y mwyaf o'r incwm a ddaw i'r adran a sicrhau bod yr adran yn ariannu'r gwasanaethau hynny mae gennym ddyletswydd statudol i'w darparu yn unig. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i bobl ag anghenion gofal a chymorth. Mae gennym nifer o gynigion yn gysylltiedig â'r maes gwaith hwn:

1) **Lleihau Gwasanaethau nad ydynt yn rhai Statudol**
Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y GIG yn ariannu'r gwasanaethau mae'n gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau i gefnogi pobl â meddyginiaeth a thasgau gofal iechyd a hefyd cael mynediad at Arian Gofal Iechyd Parhaus lle mae pobl yn gymwys i'w dderbyn. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £200,000 yn 2018/19 a £724,000 ychwanegol yn 2019/20.**

2) **Adennill Incwm a Chostau**
Mae gan y cyngor bolisi codi tâl ar gyfer gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae hyn yn sicrhau bod yr adran yn cydymffurfio â model adennill costau llawn y cyngor gan dalu sylw ar yr un pryd at y cap blynyddol ar uchafswm y tâl wythnosol am wasanaethau yn y cartref a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Gan fod y cap codi tâl yn codi bob blwyddyn mae hyn yn galluogi'r adran i gynhyrchu incwm ychwanegol. Rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r incwm hwn i gyfrannu at arbedion blynyddol yr adran.

Yr unig wasanaeth nad yw'r adran yn codi'r tâl llawn amdano yw gwasanaethau dydd. Cynigir y dylid unioni hyn a chodi'r tâl ar gyfer gwasanaethau dydd o £25 i £39 y diwrnod i adlewyrchu gwir gost y gwasanaeth. Bydd y cap ar uchafswm y tâl wythnosol yn cyfyngu ar nifer y bobl a gaiff eu heffeithio gan hyn. Cymerir camau i reoli effaith y newid hwn ar yr unigolion a effeithir.

Y llynedd, yn dilyn ymgynghori, fe wnaethom newid y ffordd rydym yn codi tâl am Teleofal ac mae hyn yn gweithio'n dda ac yn helpu i leihau cost ariannol y gwasanaeth hwn i'r adran.

Yn olaf, mae'r adran yn cyflenwi rhai gwasanaethau i Awdurdodau Lleol eraill. Rydym am sicrhau ein bod yn codi'r tâl llawn am gostau'r gwasanaethau a ddarperir i'r cynghorau hyn. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £358,000 yn 2018/19 a £156,000 ychwanegol yn 2019/20.**

<u>Dywedwch Eich Barn</u>

Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, fforddiadwy sy'n addas i'r dyfodol ac sydd hefyd yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran y ffordd mae eu hanghenion yn cael eu bodloni. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu gwasanaethau rydym yn eu darparu ar hyn o bryd, ac o bosibl yn dod â rhai i ben, a datblygu gwasanaethau newydd. Byddwn yn gweld a oes angen o hyd am wasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd, ac a ydynt yn cyflenwi'r canlyniadau bwriedig ac yn darparu gwerth am arian. Mae gennym nifer o gynigion mewn perthynas â'r maes gwaith hwn:

3) Cyfleoedd dydd a gwaith

Rydym eisoes wedi ymgynghori â chi ynghylch adolygu'r gwasanaeth cyfleoedd dydd a gwaith. Mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo ac yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar ddarparu cyfleoedd gwaith i oedolion ag anableddau dysgu, anableddau corfforol, nam synhwyraidd ac anghenion iechyd meddwl (sef profion PAT, caffi Dyfroedd Alun a golchdy Coverall). Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i benderfynu a ddylai'r Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion barhau i redeg y prosiectau hyn, a oes angen o hyd am y gwasanaethau hyn ac yn nodi unrhyw ffyrdd eraill y gallwn helpu pobl i gael mynediad at gyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn byddwn hefyd yn adolygu dau wasanaeth dydd arall, Prosiect Gardd Erlas a chanolfan ddydd Cunliffe, er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaethau cynaliadwy sy'n addas i'r dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn hefyd yn ystyried ail-leoli staff sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn ein safle yn Greenacres i leihau costau swyddfeydd staff, ac ati. Byddwn yn gweithio'n agos gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi'r trosglwyddiad er mwyn i'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud barhau. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £67,493 yn 2018/19 a £402,000 ychwanegol yn 2019/20.**

4) Adolygu Taliadau Uniongyrchol

Rydym am wneud Taliadau Uniongyrchol yn hygyrch i fwy o bobl. Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i bobl sy'n gymwys i dderbyn gofal a chymorth ddewis rheoli eu cyllideb eu hunain gyda chymorth neu heb gymorth. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i bobl o ran pryd a sut maent yn derbyn gofal a phwy sy'n darparu'r gofal hwnnw. Gellir prynu gwasanaethau gan ddarparwr gofal neu gall pobl gyflogi eu Cymhorthyddion Personol eu hunain. Rydym yn ystyried ffyrdd o wneud Taliadau Uniongyrchol yn haws eu rheoli ac rydym yn adolygu'r gwasanaethau cymorth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae pobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd yn ein helpu i symud ymlaen â'r gwaith hwn. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu incwm o tua £125,000 yn 2019/20.**

5) Adolygu Gwasanaethau Seibiannol

Rydym eisiau gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i ofalwyr gan gynnwys gwasanaethau seibiannol i ofalwyr. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u cynllunio er mwyn rhoi seibiant i ofalwyr o'u rôl gofalu. Rydym yn cynnig y dylid rhoi'r gorau i ddefnyddio darparwyr gofal yn y cartref i ddarparu gofal seibiannol i ofalwyr ac i gomisiynu gwasanaeth newydd i ofalwyr yn cynnig gwasanaethau mwy hyblyg ar gost fwy cynaliadwy. Rydym yn bwriadu gweithio gyda gofalwyr a'r trydydd sector i ddatblygu'r gwasanaethau hyn.

Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau grant a fydd yn ein caniatáu i adeiladu estyniad ar Park View ein cyfleuster seibiannol arbenigol i oedolion ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Bydd hyn yn ein galluogi i gynyddu lefel y gwasanaethau seibiannol arbenigol sydd ar gael a gallai hefyd helpu i gynhyrchu incwm gan y byddai'r gwasanaeth ar gael i'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol eraill ei brynu gan wneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £120,000 yn2018/19.**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael iddynt yn bersonol, o fewn eu rhwydwaith cymorth a'u cymuned ehangach gan roi pwyslais ar alluogi pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y gwasanaeth Ailalluogi sydd yn llwyddiannus wrth helpu pobl i ad-ennill eu hannibyniaeth a lleihau'r angen am wasanaethau gofal a chymorth.

Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac yn dyrannu gwasanaethau mewn ffordd deg a chytbwys er mwyn i ni ateb y galw a rhoi cymorth i bobl sicrhau canlyniadau cynaliadwy cadarnhaol. Yn wyneb hyn, rydym yn bwriadu adolygu anghenion pobl sy'n derbyn gwasanaethau a'r gofal a'r cymorth a ddarperir iddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd arnynt ei angen a dim mwy. Mae gennym nifer o gynigion sydd yn gysylltiedig â'r maes gwaith hwn:

6) Adolygu'r Gwasanaethau Gofal a Chymorth

Byddwn yn adolygu'r holl bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth i weld a oes unrhyw ffyrdd eraill y gallwn roi cymorth i bobl er mwyn bodloni eu hanghenion a sicrhau nad oes unrhyw orddarpariaeth o ran gwasanaethau. Fel rhan o hyn, rydym yn cynnig y dylid adolygu'r ddarpariaeth a'r gwaith o gyflenwi Cymorth Gwaith Prosiect. Mae Cymorth Gwaith Prosiect yn cyfeirio at gymorth 1:1 a ddarperir i bobl er mwyn eu galluogi i reoli eu bywydau a chymryd rhan yn y gymuned. Mae mwyafrif y gwasanaeth hwn yn cael ei brynu ar hyn o bryd gan Ddarparwyr Gofal yn y Cartref. Cynigir y dylid adolygu'r defnydd o Gymorth Gwaith Prosiect a meini prawf cymhwysedd ar ei gyfer a nodi unrhyw fodelau cyflenwi sy'n costio llai fel Taliadau Uniongyrchol a Rhannu Bywydau. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £125,000 yn 2018/19 a £225,000 ychwanegol yn 2019/20.**

7) Byw â Chymorth

Rydym yn bwriadu adolygu Byw â Chymorth er mwyn sicrhau bod y model yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae Byw â Chymorth yn cynnig cymorth a llety i bobl sydd â lefelau angen uchel. Mae'n galluogi pobl i gael eu tenantiaethau eu hunain ac i fyw â chymorth yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned. Fel arfer, bydd tîm o bobl yn darparu'r lefel gywir o gymorth ar gyfer yr unigolyn a'r cyd-denantiaid.

Mae gan y rhan fwyaf o dai Byw â Chymorth aelod staff sy'n cysgu yno dros nos. Rydym yn cynnig y dylid adolygu hyn gan ein bod yn gwybod nad oes angen y lefel hwn o bresenoldeb staff ym mhob tŷ. Byddwn yn adolygu pob tŷ ar wahân ac yn gwneud y defnydd mwyaf o teleofal a chymorth symudol lle bo hynny'n briodol.

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd yn ariannu unrhyw leoedd gwag yn y tai Byw â Chymorth. Mae hyn yn gost sylweddol i'r adran bob blwyddyn. Rydym yn cynnig y dylid adolygu hyn a gwella'r ffordd rydym yn rheoli lleoedd gwag.

Rydym hefyd yn cynnig adolygu lefel yr angen a gaiff ei gynnal o fewn Byw â Chymorth ac i nodi gwasanaethau eraill mwy addas ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn fwy na'r lefel hwnnw er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni eu hanghenion yn yr amgylchedd mwyaf priodol a bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n deg. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £197,622 yn 2018/19 a £250,000 ychwanegol yn 2019/20.**

8) Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir

Cynigir ein bod yn parhau â'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i gefnogi pobl i ddychwelyd i Wrecsam sydd wedi eu lleoli mewn cartrefi gofal neu wasanaethau Byw â Chymorth y tu allan i'r Sir a sicrhau ein bod yn gwneud defnydd llawn o Fyw â Chymorth fel dewis arall i leoliadau lle bo hynny'n briodol. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn adolygu'r defnydd o'r Gwasanaeth Adfer (ein gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol) a'r posibilrwydd o'i ehangu, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. **Amcangyfrifir y gallai'r cynnig hwn gynhyrchu arbedion o tua £75,000 yn 2018/19 a £75,000 ychwanegol yn 2019/20.**

Lle



Rydym yn ymroddedig i greu a chefnogi amgylchedd cynaliadwy ac amrywiol. Golyga hyn ein bod am hyrwyddo tai o ansawdd da ac adfywiad, ac ymfalchïo yn ein hamgylchedd. Rydym eisiau i gymunedau cysylltiedig, cynaliadwy ar draws Wrecsam gael anheddau, cymdogaethau, adeiladau ac ardaloedd cyhoeddus deniadol.

Adran yr Amgylchedd a Chynllunio

Mae Adran yr Amgylchedd a Chynllunio yn darparu amrediad eang iawn o wasanaethau sydd er budd cymunedau ac yn gwarchod yr amgylchedd, gan gynnwys ailgylchu, casglu gwastraff, gwaredu gwastraff, atgyweirio priffyrdd, cludiant ysgol, torri gwair, rheoli ardaloedd a pharciau cyhoeddus, hawliau tramwy cyhoeddus, goleuadau stryd, meysydd parcio, yr amlosgfa a mynwentydd, safonau masnach, diogelwch bwyd, rheoli llygredd, iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu tacsis, cerbydau hurio preifat, tafarndai a chlybiau. Mae hefyd yn gweithio gyda chymunedau i greu a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, i benderfynu ar geisiadau cynllunio a rheoliadau adeiladu ar gyfer datblygiadau newydd ac i warchod Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a choed a choetiroedd gwerthfawr. Mae'r adran yn gorfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r holl feysydd gwaith hyn.

Yn y dyfodol bydd yr adran yn canolbwyntio ar gyflenwi rhai prosiectau mawr er budd pobl Wrecsam i gyd, heb ostwng lefel a safon y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys parhau i weithredu'r bartneriaeth adfer a gwaredu gwastraff yn effeithiol, parhau i weithredu'r gwaith contract cynnal priffyrdd yn effeithiol, creu mwy o brosesau llyfn a thimau i ymgymryd â gwaith gwarchod y cyhoedd, paratoi a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) – sy'n cynnwys llawer o ymgysylltu â'r cyhoedd – a rheoleiddio eiddo datblygu a masnachol er mwyn atal niwed i bobl, cymdogaethau a'r amgylchedd. Bydd angen i wasanaethau symud tuag at gymysgedd o ddarpariaeth fewnol a chontractio darpariaeth gwasanaeth i ddarparwyr/partneriaid allanol a chofleidio technoleg a ffyrdd o weithio newydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn gydnerth ac effeithlon, mewn hinsawdd o adnoddau llai a mwy o bwysau amgylcheddol.

Rhoi Gwybod i Chi

1) **Goleuadau Stryd**
Cynigir y dylid gosod lampau LED sy'n arbed ynni ar oleuadau stryd y Cyngor er mwyn lleihau costau ynni a chynnal. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £30,000 yn 2018/19 a £50,000 ychwanegol yn 2019/20.**

2) **Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol**
Mae'r tîm Cynllunio yn gweithio gyda chymunedau i gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol, sef y cynllun statudol sy'n rheoli'r mathau o ddatblygiadau newydd a'u lleoliad o fewn y Fwrdeistref Sirol, er mwyn penderfynu ar geisiadau cynllunio a rheoliadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd a gwarchod Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig a choed a choetiroedd gwerthfawr. Cynigir y dylid adolygu'r Gwasanaeth Cynllunio gan arwain at leihau lefelau staffio.

Yn ogystal â darparu amrediad eang o wasanaethau, mae'r tîm Amgylchedd yn gweithredu fflyd o gerbydau a garej ar gyfer eu cynnal a gwneud profion MOT ac ati. Cynigir ein bod yn ailstrwythuro'r trefniadau rheoli a'r ffordd rydym yn gweithredu'r cerbydau/y garej.

Mae'r Cyngor yn rheoli lawntiau a phafiliynau bowlio mewn gwahanol safleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cynigir y dylid gofyn i Gynghorau Cymuned neu Glybiau Bowlio reoli'r cyfleusterau bowlio a'r pafiliynau (lle bo hynny'n gymwys) yn y dyfodol. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £206,000 yn 2018/19.**

3) **Adolygu Taliadau ar gyfer Gwastraff Masnachol**
Ar hyn o bryd mae ailgylchu yn cael ei gasglu o ysgolion ac unrhyw adeiladau eraill sydd yn eiddo i'r Cyngor, fel cartrefi preswyl a chanolfannau cymunedol ar gyfradd is. Cynigir ein bod yn adolygu'r strategaeth codi tâl ar gyfer gwastraff masnachol er mwyn gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd a gwneud y costau i gwsmeriaid mewnol ac allanol yn gyfartal. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £20,000 yn 2018/19 a £20,000 ychwanegol yn 2019/20.**

Dywedwch Eich Barn

4) Codi tâl am gasgliadau Gwastraff Gwyrdd

Mae'r Cyngor yn darparu biniau Gwastraff Gwyrdd er mwyn i bobl waredu gwastraff o'r ardd. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl prynu bagiau bin ychwanegol a'u gwagio am ddim. Cynigir y dylid cyflwyno tâl am gasglu unrhyw finiau Gwastraff Gwyrdd ychwanegol. Byddem yn parhau i gasglu 1 bin am ddim fel arfer, ond yn codi tâl o £30 y bin y flwyddyn am unrhyw finiau ychwnaegol. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £15,000 yn 2018/19.**

5) Adolygu Parcio Bathodynnau Glas

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu cynllun parcio 'bathodynnau glas' ar gyfer y bobl rheini sydd wedi'u cofrestru yn anabl. Gall deiliaid bathodynnau glas barcio am ddim ym Meysydd Parcio'r Cyngor ar hyn o bryd. Er bod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i ddarparu mannau parcio anabl, nid yw'n ofynnol i'w darparu am ddim. Nid yw'r cynllun bathodynnau glas yn seiliedig ar brawf moddion (prawf ariannol); felly ni ddylid cymryd yn ganiataol na all deiliaid bathodynnau glas fforddio talu am barcio. Cynigir y dylid cyflwyno taliadau ym meysydd parcio'r Cyngor ar gyfer pobl sydd â bathodyn glas. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £25,000 yn 2018/19.**

6) Cyflwyno Taliadau Parcio mewn gwahanol Barciau a Lleoliadau

Mae Cyngor Wrecsam yn rheoli nifer o barciau ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cynigir y dylid cyflwyno tâl o £1 y dydd i barcio ym meysydd parcio Dyfroedd Alun, Tŷ Mawr, Melin y Nant a Basn Trefor. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £47,000 yn 2018/19.**

7) Maes Parcio Staff ac Aelodau

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu parcio am ddim i rai o'i staff ac i'r Aelodau Etholedig ym meysydd parcio'r dref. Cynigir y dylid dileu'r hawl hwn er mwyn annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio i'r gwaith (e.e. trafnidiaeth gyhoeddus) ac i gynhyrchu incwm ychwanegol, gan y gallai rhai barhau i ddewis talu am barcio mewn meysydd parcio sydd yn eiddo i'r Cyngor. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £49,000 yn 2018/19.**

8) Adolygiad o'r Parciau Gwledig

Mae'r Cyngor yn rheoli 11 Parc Gwledig a Threfol. Cynigir y dylid lleihau nifer y ceidwaid parc sy'n gweithio yn y parciau hyn. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ail-lunio i ganolbwyntio ar reoli parciau allweddol yn ddiogel (Parciau Gwledig Dyfroedd Alun a Tŷ Mawr) a chynnal adolygiad pellach o'r cyfleusterau tymhorol yn ein parciau. Bydd y Gwasanaeth Strydlun yn cynorthwyo'r ceidwaid i lanhau'r parciau. Bydd cyfleusterau a staff a ariennir gan grantiau yn dal i gael eu cynnal yn unol â meini prawf y grantiau.

Yn sgil lleihau nifer y staff bydd llai o wasanaethau fel digwyddiadau a gwaith ysgol a bydd model gwasanaeth newydd yn cael ei ddatblygu. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £100,000 yn 2018/19.**

9) Codi'r Ffi Blynyddol ar gyfer Tocynnau Bws Disgresiynol

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu tocynnau bws rhad i fyfyrwyr nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau cludiant ysgolion os oes seddau gwag ar gael. Cynigir y dylid codi'r tâl presennol o £50 y tymor i £100 y tymor. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £6,000 yn 2018/19.**

10) Codi Taliadau'r Amlosgfa

Mae'r Cyngor yn rheoli Amlosgfa Pentre Bychan. Mae cost amlosgiadau yn Amlosgfa Pentre Bychan wedi codi yn unol â chwyddiant yn unig dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi a gwella'r cyfleusterau. Rydym yn cynnig y dylid codi ffïoedd yr Amlosgfa o 1 Ebrill 2018, sef codiad o £50 am amlosgiad sengl a chodiad o £100 am amlosgiadau ar y cyd /dwbl. **Amcangyfrir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £100,000 yn 2018/19.**

11) Codi Ffïoedd Rhandiroedd

Mae'r Cyngor yn darparu safleoedd rhandiroedd yn Prices Lane, Erddig, Tan y Fron a Ffordd Victoria. Ar hyn o bryd mae 455 llain yn y rhandiroedd. Cynigir y dylid codi ffïoedd rhandiroedd ar gyfer yr holl denantiaid 25% o 1 Ebrill 2018. Byddai hyn yn golygu byddai chwarter llain yn costio £39, hanner llain yn costio £72, a llain gyfan yn costio £122. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £4,000 yn 2018/19.**

12) Arolwg Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu ei Wasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu am y ddwy flynedd diwethaf wrth i ni ymdrechu i gynyddu ein cyfraddau ailgylchu i gwrdd ag anghenion Llywodraeth Cymru ac i wella effeithiolrwydd gwasanaeth. Rydym wedi buddsoddi mewn cerbydau ailgylchu newydd, gwella'r gwasanaeth ailgylchu ar ymyl y palmant ar gyfer deunyddiau ychwanegol wedi'u hailgylchu ac wedi cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd a bocsys casglu (ar droli) ar ymyl y palmant yn wythnosol. Cam nesaf y Cyngor yw adolygu cysondeb casglu'r gwastraff yn weddill (bin du). Bydd hyn yn annog mwy o ailgylchu a gwella effeithlonrwydd gweithredol.

Trefniadaeth



Rydym eisiau creu sefydliad effeithlon ac effeithiol sy'n gallu cefnogi lles lleol yn y ffordd orau bosibl. Rydym eisiau parhau i foderneiddio ein gwasanaethau gan gefnogi Cyngor cydnerth ar yr un pryd.

Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

Mae'r adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn dwyn ynghyd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau cymorth ar draws y sefydliad cyfan, gan gynnwys:

- Adnoddau Dynol (AD) a Gwasanaethau Gweithlu a Datblygu Trefn (DT)
- Cyflogres a Phensiynau
- Gwasanaethau TGCh a Rheoli Gwybodaeth
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Gwasanaethau Democrataidd a Chofrestru
- Digidol, Brand, Cyfathrebu, Cyfryngau Cymdeithasol a Digwyddiadau
- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chwynion.

Mae gwaith yr adran hon yn allweddol i sicrhau ein bod yn cyflawni dwy elfen hanfodol o Gynllun y Cyngor: cwsmeriaid bodlon sy'n ymgysylltu, a chreu'r amodau i gael llwyddiant. Mae'r adran hon yn hanfodol i gefnogi a gweithredu'r rhaglen ail-lunio barhaus. Yn benodol, mae'r model newydd sy'n gweithredu ar draws y Cyngor wedi bod yn sail i nifer o fodelau gwasanaeth y dyfodol er mwyn i'r gwasanaethau cymorth sicrhau'r amcanion a ganlyn:

1. Gall ein cwsmeriaid gael mynediad hawdd ac effeithiol at wasanaethau, os yw swyddfeydd y Cyngor ar agor ai peidio. Mae sawl elfen o fodel newydd y gwasanaeth TGCh i'r dyfodol yn pwysleisio'r angen i fuddsoddi yn TGCh er mwyn darparu'r llwyfan angenrheidiol fydd yn galluogi gwasanaethau rheng-flaen i ail-lunio eu hunain i ateb anghenion gwasanaeth mewn amgylchedd lle ceir llai o arian.

2. Mae gan AD/DT y lefelau priodol o adnoddau o ran staff i gynorthwyo adrannau sy'n adolygu eu hanghenion o ran gweithwyr yn y dyfodol ac mae'n adlewyrchu maint cyffredinol y sefydliad yn y dyfodol. Unwaith eto, mae systemau hunanwasanaeth TGCh yn cael eu defnyddio i roi gwell gwybodaeth sylfaenol er mwyn llywio eu cynlluniau ar gyfer y gweithlu a phenderfyniadau rheoli.

3. Rydym yn canolbwyntio arbenigedd proffesiynol ar waith proffesiynol wedi ei flaenoriaethu gan adael y gwaith gweinyddol mwy cyffredin i gael ei gwblhau ar y lefel priodol.

Yn y dyfodol, rhagwelir y gall yr adran hon edrych yn wahanol iawn wrth i'r rhaglen ail-lunio barhau i gael ei gweithredu a'i gwreiddio ar draws y sefydliad.

<u>Rhoi Gwybod i Chi</u>

1. **Adolygiad o Systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor**
   Byddwn yn parhau i adolygu faint o raglenni TGCh a ddefnyddir gan y Cyngor er mwyn lleihau costau a delir i gyflenwyr 3ydd parti. Mae'r Cyngor yn defnyddio systemau TGCh lluosog i gyflenwi ein gwasanaethau, ac mae'r rhan fwyaf yn denu ffi trwydded flynyddol. Rydym yn adolygu'r holl systemau hyn i weld a allwn leihau'r nifer a ddefnyddir ac felly cyfanswm y ffioedd trwyddedu sydd yn rhaid i ni eu talu. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £51,000 yn 2018/219.**

2. **Model cyflenwi TGCh arall**
   Byddwn yn adolygu dewisiadau eraill i wella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd gwasanaeth TGCh y Cyngor. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd ar gyfer y sector preifat neu bartneriaid eraill y sector cyhoeddus i gyflenwi rhai o'n gwasanaethau TGCh, i rannu arbenigedd a chyflenwi buddsoddiad. Dewis arall fydd ystyried a allai technolegau fel Cloud ddod â mwy o arbedion effeithlonrwydd a hyblygrwydd i'r Gwasanaeth. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £86,000 yn 2019/20.**

Yr Adran Gyllid

Mae'r Adran Gyllid yn darparu'r gwasanaethau cymorth corfforaethol a ganlyn ar gyfer y sefydliad cyfan:

- Cyfrifeg
- Archwilio Mewnol
- Caffael Corfforaethol, Comisiynu a Rheoli Contractau
- Yswiriant a Rheoli Risg
- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Perfformiad, Gwelliant a Phartneriaeth (gan gynnwys ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol)
- Cymorth Craffu
- Cydlyniad Cymunedol
- Refeniw a Budd-daliadau
- Uned Mwyhau Incwm

Rhoi Gwybod i Chi

1) **Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol a chynhyrchu incwm**
Byddwn yn ceisio lleihau lefelau staffio mewn rhai meysydd cymorth fel Cyfrifeg, Archwilio a Thechnegol, Refeniw a Pherfformiad, Gwasanaeth Gwella a Phartneriaethau. Byddwn hefyd yn ceisio cynhyrchu incwm ychwanegol mewn meysydd fel yr Uned Mwyhau Incwm. Bydd yr holl arbedion hyn yn cael eu gwneud heb fawr ddim effaith ar ein gwasanaethau i'r cyhoedd. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £200,000 yn 2018/19 a £166,000 ychwanegol yn 2019/20.**

Dywedwch Eich Barn

2) **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu**
Mae'r Cyngor yn darparu arian i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i ariannu swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSO). Daw'r cytundeb ariannu i ben ym mis Mawrth 2019 a chynigir y dylid dod â hwn ymlaen i Hydref 2018. Felly os na ellir canfod ffynhonnell arian arall, gallai hyn arwain at leihad yn nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y Fwrdeistref Sirol. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £140,000 yn 2018/19 a £140,000 ychwanegol yn 2019/20.**

Cynigion Trawsbynciol

1. **Lleihau Swyddfeydd**
   Mae ail-lunio gwasanaethau a'r twf mewn gweithio ystwyth wedi arwain at leihad yn nifer y staff a fydd yn ei dro yn lleihau'r angen am swyddfeydd. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £229,000 yn 2019/20.**

2. **Lleihau Nawdd y Cyngor**
   Rydym wedi bod yn darparu nawdd ar gyfer nifer o brosiectau (e.e. NEW Borderlands, Tai Fforddiadwy, Cefnogi Pobl, Safle Treftadaeth y Byd, Stiwt, Rheoli Cyfleusterau a Her Ysgolion Cymru) sydd wedi dod i ben, neu nad oes arnynt angen nawdd gan y Cyngor bellach er mwyn parhau. Yn yr achosion lle bydd yn bosibl gwneud hynny heb gael effaith negyddol ar y cyhoedd, byddwn yn lleihau neu'n tynnu'r cyllidebau a ddyrannwyd yn flaenorol i'r prosiectau hyn. Trafodir y lleihad yn y cyllidebau hyn yn uniongyrchol gyda phartneriaid a sefydliadau a allai gael eu heffeithio. **Rhagwelir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £205,000 yn 2018/19 a £100,000 ychwanegol yn 2019/20.**

3. **Cymorth Sefydliadol**
   Mae'r Cyngor wedi symud at wasanaeth Cymorth Busnes mwy effeithlon yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn Adolygiad Gweinyddol manwl yn 2012. Mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni llawer o egwyddorion arfer da ar gyfer gwasanaethau Cymorth Busnes fel cyflwyno canolfannau Adeiladu a pheth symudiad at hunanwasanaeth. Cynigir y dylid creu gwasanaeth ar draws y Cyngor a fydd yn canolbwyntio ar gefnogi anghenion cymorth y sefydliad, gyda'r gallu i gyfnewid adnoddau yn wrthrychol o fewn a rhwng timau wrth i lwythi gwaith newid. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o adnoddau gweinyddol y Cyngor wedi'u gwreiddio yn yr adrannau ac ni ellir cyflwyno hyblygrwydd ar draws y Sefydliad. Mae'r model hwn yn seiliedig ar broses gwella busnes a gwneud y mwyaf o dechnoleg. Mae nifer o brosesau busnes gweinyddol a fyddai'n gallu bod yn fwy safonol neu y gellid eu cyflenwi drwy ddulliau hunanwasanaeth. O ganlyniad, dylai fod yn bosibl i gynnal a gwella lefelau presennol y gwasanaeth â llai o ymdrech ac adnoddau. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £143,000 yn 2018/19.**

4. **Mwy o weithio mewn Partneriaeth**
   Weithiau bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd gyda phartneriaid o awdurdodau lleol eraill a busnesau lleol. Yn yr achosion lle mae'r cyfleoedd partneriaeth hyn wedi eu gweithredu, maent wedi profi'n llwyddiannus. Felly, cynigir bod y Cyngor yn archwilio'r posibilrwydd o ffurfioli'r trefniadau partneriaeth hyn gydag awdurdodau eraill er mwyn rhannu arfer da, safoni gweithdrefnau, rhannu adnoddau, cyfuno dulliau cyflenwi ac ati. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu arbedion o tua £50,000 yn 2018/19 a £172,000 ychwanegol yn 2019/20.**

5. **Ad-ennill Incwm a Chostau**

Ar hyn o bryd, rydym yn darparu rhai gwasanaethau (i fusnesau neu i'r cyhoedd) am ddim, neu am gyfraniad bach. Yn 2015 mabwysiadodd y Cyngor Bolisi Ad-ennill Costau newydd sy'n sefydlu egwyddorion ar gyfer codi tâl am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Gall y Cyngor godi tâl er mwyn ein galluogi i dalu costau darparu rhai gwasanaethau. Cynigir ein bod yn codi'r ffioedd ar gyfer nifer o wasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn ad-ennill costau yn llawn, yn unol â'n polisi a gytunwyd. Mae'r rhain yn cynnwys pethau fel trwyddedau tacsis, trwyddedau siopau anifeiliaid anwes a ffioedd gwaith stryd. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £21,000 yn 2018/19.**

Treth y Cyngor

Cyfanswm cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 oedd £225 miliwn, sef £169 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £56 miliwn o Dreth y Cyngor.

Treth sy'n cael ei godi'n lleol yw Treth y Cyngor ac mae pob eiddo domestig yn talu'r dreth. Mae'n cynnwys tair elfen ar wahân – Taliad ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Taliad ar gyfer Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Thaliad ar gyfer y Cynghorau Cymuned. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn casglu'r holl daliadau hyn ac yn cadw'r cyfanswm sy'n ddyledus i'w hun gan dalu Awdurdod yr Heddlu a'r Cynghorau Cymuned unigol y symiau a gasglwyd ar eu rhan.

Mae'r swm sy'n cael ei dalu yn dibynnu ar 'Fand' yr eiddo. Mae'r bandiau hyn yn amrywio o 'A i I': 'A' yw'r taliad isaf ac 'I' yw'r taliad uchaf. Mae gostyngiadau hefyd ar gael i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu os yw'r eiddo yn wag.

Mewn perthynas ag elfen Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, taliad presennol treth y cyngor ar gyfer bil treth y cyngor 'Band D' arferol yw £1,051.89 y flwyddyn. Dyma'r taliad Treth y Cyngor 7fed isaf o blith pob Awdurdod Lleol yng Nghymru a Lloegr.

O ystyried y gostyngiad sylweddol a ragwelwyd yn arian Llywodraeth Cymru, y llynedd fe wnaethom ymgynghori ar godi Treth y Cyngor hyd at 5%; dywedodd dros eich hanner wrthym eich bod yn credu bod cynnydd o 3% yn dderbyniol a dywedodd traean ychwanegol o'r ymatebwyr y byddai cynydd mwy na 3% yn dderbyniol os byddai hynny'n golygu llai o dorri ar wasanaethau. Fel cyfaddawd, ac er mwyn ystyried y farn ar bob pen i'r ddadl, yng nghyllideb 2017/18 fe wnaethom godi Treth y Cyngor 2.6% (3% sydd wedi ei nodi yn ein cynllun Ariannol Tymor Canol).

Yn wyneb yr her ariannol parhaus sy'n ein hwynebu, a'r angen cynyddol i wneud arbedion ac adolygu ein gwasanaethau, hoffem wybod unwaith yn rhagor beth yw eich barn am godi Treth y Cyngor. Yn ôl Llywodraeth Cymru gall Awdurdodau Lleol godi Treth y Cyngor hyd at uchafswm o 5%, ac yn Wrecsam byddai hyn yn golygu cynnydd o £52.60 y flwyddyn (neu £1.01 yr wythnos) ar gyfer eiddo Band D. Byddai cynnydd o 3% yn golygu cynnydd o £31.56 y flwyddyn (neu 61c yr wythnos) ar gyfer eiddo Band D.

Byddai cynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor (yn hytrach na'r 3% a gynlluniwyd) yn cynhyrchu tua £910k y flwyddyn mewn incwm ychwanegol (a fyddai'n lleihau cyfanswm yr arian mae arnom angen ei arbed o wasanaethau eraill).

Rydym am wybod a fyddai'n well gennych gefnogi'r cynnig a amlinellwyd yn y cynllun ariannol tymor canol sef cynnydd o 3% yn Nhreth y Cyngor NEU gytuno i gynnydd uwch na 3% (ond ddim mwy na 5%) er mwyn amddiffyn mwy o wasanaethau.

I ddweud eich dweud am hyn, a'r cynigion eraill a amlinellir yn y ddogfen hon, a fyddech cystal â chymryd rhan yn ein harolwg arlein ar **www.wrexham.gov.uk/budgetconsultation** neu anfonwch neges e-bost atom **telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk** neu i'r cyfeiriad hwn, Dywedwch eich Barn, Neuadd y Dref, Wrecsam. LL11 1AY.

Mae'n rhaid i ni dderbyn eich ymatebion erbyn 30 Tachwedd i wneud yn siŵr bod gennym gyfle i'w hystyried cyn gwneud y penderfyniadau terfynol yn y Flwyddyn Newydd.

Ail-lunio Cyngor Wrecsam – Cwestiynau Cyffredin

C - Beth yw cyllideb flynyddol CBSW a sut mae wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf?

- Yn 2014, ein cyllideb flynyddol oedd £227 miliwn, ac yn 2017 mae'n £225 miliwn. Er ein bod wedi gwneud arbedion o £18 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd, rydym hefyd wedi cael cyfrifoldebau ychwanegol (a fydd mewn amser yn arwain ar bwysau ar y gwasanaeth) ac ynghyd â darpariaeth chwyddiant, mae costau cysylltiedig yn £16 miliwn.

C - Mae CBSW yn siarad am 'Ail-Lunio' yn aml - beth mae'n ei olygu?

- Mae'r Cyngor ar daith i newid y ffordd yr ydym wedi strwythuro a'r ffordd yr ydym yn gweithio, gan geisio ffocysu ar fod yn arweinydd cymunedol cryf, a sicrhau bod pobl Wrecsam yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu ffynnu.
- Rydym wedi bod yn profi cyfnod o newid mwyaf yr ydym erioed wedi ei gael (a chyfeirir at hwn fel ein 'Rhaglen Ail-Lunio'). Un o'r rhesymau ein bod wedi gwneud y newidiadau hyn yw oherwydd bod gennym lai o arian bob blwyddyn (oherwydd y toriadau gan Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU). Fodd bynnag, rydym wedi bod yn newid hefyd i sicrhau ein bod yn sefydliad modern sy'n gallu darparu yn y ffordd orau posibl i bobl Wrecsam. Mae poblogaeth Wrecsam yn tyfu a newid (e.e. nifer cynyddol o bobl hŷn), felly mae'n iawn i Cyngor Wrecsam newid hefyd.
- Rydym yn defnyddio egwyddorion allweddol i arwain y ffordd yr ydym yn newid (gelwir y rhain yn 'Egwyddorion Ail-Lunio'):
  - Lle bynnag y bo'n bosibl, ateb ymholiadau cwsmeriaid ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae hyn i sicrhau bod gan bobl sydd â'r sgiliau a gwybodaeth gywir ar gael i chi pan fyddwch yn cysylltu â ni.
  - Gwasanaethau sy'n ffocysu ar wasanaeth o ansawdd – mae gennym 'economi cymysg' eisoes pan fyddwn yn darparu gwasanaethau i bobl Wrecsam (mae hyn yn golygu ein bod yn darparu rhai gwasanaethau ein hunain, ac yn gofyn i sefydliadau eraill ddarparu rhai gwasanaethau ar ein rhan). Rydym eisiau sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhai o ansawdd uchel.
  - Lleihau gweithgarwch trafodaethol - y mwyaf y byddwn yn ymdrin â phethau, y mwyaf fydd y gost. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol i gael canlyniad cystal os nad gwell.
  - Rydym yn deall bod angen i ni gael ein rheoleiddio a rheoli ein perfformiad yn ofalus, ond hefyd rydym yn cydnabod y bydd rhaid i'r swyddogaethau hyn gael eu lleihau fel mae maint cyffredinol y Cyngor yn lleihau.

C – Sut y mae'r Rhaglen Ail-Lunio yn newid i gwrdd â gofynion presennol?

- Byddwn yn edrych ar ein prosesau o'r dechrau i'r diwedd – fel ein bod yn gallu eu gwneud yn fwy effeithlon ac i gael gwared ar yr agweddau sydd ddim yn ychwanegu gwerth. Rydym angen cael gwared ar unrhyw biwrocratiaeth diangen ac i groesawu technoleg a gwelliannau eraill sy'n gwneud pethau yn haws i ni – ac i'n cwsmeriaid.
- Rydym hefyd angen parhau â'r gwaith a gafodd ei ddechrau'r llynedd - ailddiffinio'r ffordd y mae ein gwasanaethau yn ymddangos ac yn dod drosodd, lleihau'r gwariant ar drydydd parti, ac ystyried ffyrdd i greu incwm a chadw at gostau.
- Byddwn yn edrych ar TGCh ac yn symud i gyfeiriad gwasanaethau digidol, croesawu technolegau symudol a gweithio mewn ffordd mwy craff.

C – Faint o adeiladau y mae Cyngor Wrecsam yn meddiannu yng nghanol y dref?

- Ym mis Ebrill 2011, mi wnaethom ddechrau adolygiad o'n gofod swyddfa. Roedd y rhan gyntaf o'r broses hon ynghylch ceisio sicrhau bod timau a gwasanaethau wedi eu lleoli yn yr adeiladau cywir, a lle bo modd, i ddwyn timau ac adrannau ynghyd. Mae hyn yn golygu ein bod wedi lleihau'r cyfanswm o arian sy'n cael ei wario ar brydlesu adeiladau neu ofod swyddfa gan bobl eraill yn sylweddol.
- Yr ail gam o newid y ffordd yr ydym yn defnyddio ein gofod swyddfa oedd cyflwyno ffyrdd mwy hyblyg o weithio (neu weithio'n 'ystwyth'). Mae hyn yn golygu y gall staff (timau lle mae'n ymarferol) weithio mewn gwahanol safleoedd swyddfa neu o gartref. Mae hyn yn ffordd llawer mwy effeithlon o weithio gan ei fod yn golygu nad oes rhaid i bobl ddychwelyd i'r un safle swyddfa rhwng cyfarfodydd (er enghraifft), ac rydym yn gallu lleihau'r nifer o ddesgiau sefydlog sydd arnom eu hangen (thrwy hynny yn lleihau'r gofod yr ydym ei angen).
- Yn 2012, roedd CBSW yn meddiannu pedwar ar bymtheg o adeiladau ar gyfer gofod swyddfa, ac yn 2017 rydym yn meddiannu 11. Hefyd, rydym wedi lleihau'r gost ar gyfartaledd i bob troedfedd sgwâr o'r adeilad hwn o thua 44%.
- Mae cynlluniau i gydgrynhoi'r adeiladau yr ydym yn eu meddiannu hyd yn oed ymhellach trwy weithio ystwyth a defnyddio gofod yn fwy effeithiol.

C – A yw popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud yn symud i fod ar-lein?

- Mae'r byd o'n hamgylch yn newid, ac mae fwyfwy o bobl yn dewis cael mynediad at wasanaethau ar-lein lle bynnag sy'n bosibl. Er enghraifft, mae bancio ar ffôn symudol neu lechen wedi disodli trafodion yn y gangen ac ar-lein fel y ffordd fwyaf poblogaidd i bobl reoli eu harian. Felly mae hi'n amser i'r Cynghorau newid y ffordd y gall breswylwyr gael mynediad at ein gwasanaeth, a dod yn fwy digidol. Nid yw hyn yn golygu na fyddwch yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn ffyrdd eraill (e.e. dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn Galw Wrecsam); fodd bynnag, i'r rhai hynny sydd eisiau mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar-lein, byddant yn gallu gwneud hynny ar adegau sy'n gyfleus iddynt hwy (yn wahanol i'r 'oriau swyddfa' arferol), ac yn gallu cwblhau trafodion yn gyflym ac yn syml (heb yr angen i aros am aelod o staff fod ar gael i ddelio â hwy). Er enghraifft, drwy gofrestru ar-lein gyda 'Fy Nghyfrif', gallwch weld a thalu eich Treth y Cyngor, gweld cyfriflenni Budd-daliadau, newid debydau uniongyrchol a gwneud cais am wahanol ostyngiadau ac eithriadau – i gyd ar amser sy'n gyfleus i chi.

C – Sut mae Cyngor Wrecsam yn penderfynu beth maent yn ei wneud a ddim yn ei wneud yn y dyfodol?

- Mae llawer o bethau mae'n RHAID i Gynghorau eu gwneud (yn ôl y gyfraith gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU); er enghraifft: gwasanaethau cymdeithasol, delio â gwastraff ac ysgolion. (Yn aml iawn mae newidiadau yn yr hyn y mae'r llywodraeth yn ei ddweud wrthym e.e. cyfrifoldebau newydd sy'n cael eu hychwanegu i'n rhestr). Byddwn ni fel eich Cyngor lleol yn parhau i wneud y rhain - er efallai byddwn yn eu gwneud yn wahanol tra byddwn yn parhau i edrych ar y ffyrdd orau o wneud pethau, ac yn diwallu anghenion pobl leol. Fodd bynnag, mae rhai pethau y mae'r Cyngor wedi DEWIS ei wneud dros y blynyddoedd, oherwydd roeddem yn gallu gweld yr angen, neu roeddem yn teimlo yr oeddem yn gallu ychwanegu at fywydau pobl ac i'r ardal leol; er enghraifft: toiledau cyhoeddus a meysydd parcio. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi dechrau gwneud llai o'r pethau nad oes arnom angen eu gwneud. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gostyngiad yn ein cyllideb; ond hefyd oherwydd bod swyddogaeth y Cynghorau yn newid. Gallwn weld nad oes angen rhai gwasanaethau o gwbl mwyach, nid yw rhai gwasanaethau yn addas i'r diben, a gallai'r gwasanaethau eraill fod yn well petaent yn cael eu darparu gan sefydliadau neu fusnesau eraill. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y byddwn yn ffocysu ar y gwasanaethau hynny sydd raid i ni eu darparu yn ôl y gyfraith, a gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r rhain yn effeithiol i bobl leol.

C – Beth yw Treth y Cyngor, sut mae'n cael ei wario, a pham ei fod yn dal i gynyddu - er bod y gwasanaethau yr ydym yn eu derbyn yn cael eu lleihau?

Mae Treth y Cyngor yn dreth a godir yn lleol sy'n daladwy ar holl eiddo domestig (h.y. tai, fflatiau, rhandai) ac er bod y Cyngor yn casglu'r taliad hwn gan breswylwyr, mae'n cynnwys tair ffi ar wahân:

- Ffi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Ffi Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Ffi eich Cyngor Cymuned

Mae'r swm yr ydych yn ei dalu mewn difrif yn dibynnu pa 'Fand' mae eich eiddo ynddo. (Mae'r Bandiau yn mynd o 'A' i 'I', Band A sydd a'r ffi leiaf). Mae'r Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gyfrifol am adnabod y 'bandiau' cywir ar gyfer holl eiddo yng Nghymru a Lloegr, ac yn gweithio'n llwyr annibynnol o'r Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth am Fandiau Treth y Cyngor ewch i **www.wrexham.gov.uk/counciltax**

Mae Treth y Cyngor yn cynnwys 25% o gyllideb cyffredinol blynyddol, ac mae'n mynd tuag at ariannu gwasanaethau megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol a chasgliadau bin. Fodd bynnag, NID yw Treth y Cyngor yn daliad uniongyrchol i'r gwasanaethau hyn; felly nid yw'n golygu nad oes angen i chi dalu Treth y Cyngor oherwydd nad ydych yn cael mynediad at wasanaethau penodol. Yn ystod eich bywyd, mae'n debygol y byddwch chi, eich ffrindiau a theulu angen mynediad at ystod eang o wasanaethau'r Cyngor – pob un a fydd yn cael eu hariannu (yn rhannol) gan gyfraniadau Treth y Cyngor.

Wrecsam sydd â'r 7fed Treth y Cyngor isaf yng Nghymru a Lloegr, a thra bo rhai Awdurdodau Lleol ddim yn cynyddu eu Treth y Cyngor o un flwyddyn i'r llall (fel Wrecsam), mae hyn oherwydd bod eu treth wedi ei osod ar gyfradd uwch na un ni. Yn anffodus, mae gostyngiadau yng nghyllid gan y Llywodraeth i Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn golygu ein bod yn wynebu ceisio cael cydbwysedd cywir rhwng colli mwy o wasanaethau (ac felly'n cael effaith negyddol ar y cyhoedd), neu gynyddu ffioedd a chodi tâl (i ddiogelu rhai o'r gwasanaethau hyn). Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghylch cynyddiadau Treth y Cyngor, ac wedi gwrando arnoch chi pan ddywedasoch y byddai cynnydd o 5% (er enghraifft) yn ormod. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gwrando arnoch chi pan ofynasoch i ni ddiogelu'r gwasanaethau rheng flaen, a sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu blaenoriaethu a chynnal safonau uchel mewn meysydd megis yr amgylchedd a Strydwedd. Er mwyn cael y cydbwysedd cywir yn y sefyllfa anodd hon, byddwn yn parhau i ymgynghori â'r cyhoedd ar gynyddiad blynyddol mewn Treth y Cyngor sy'n ein gwneud yn gyson ag Awdurdodau Lleol eraill, a'i fod yn hylaw i breswylwyr allu ei fforddio, ac yn rhoi digon o arian i ni yn y pot i dalu am bethau sydd o bwys yn ein cymunedau.

C - Tybed a yw'r holl newidiadau hyn a lleihad mewn staff yn golygu na all y Cyngor berfformio mor dda ag y dylai?

- Gyda'r holl newidiadau yr ydym wedi eu cyflawni, byddech yn disgwyl gweld bod ein perfformiad fel Cyngor yn cael ei effeithio (o leiaf yn y tymor byr pan mae'r newidiadau yn cael eu sefydlu); fodd bynnag, rydym yn falch o ddweud ein bod yn parhau i gael cydnabyddiaeth am ein gwaith, ac mae gennym lawer iawn i'w ddathlu. Er enghraifft, yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17:
- Canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd oedd yr uchaf yng Nghymru;
- Canran yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, lle bydd yr ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol oedd yr uchaf yng Nghymru
- Pobl yn Wrecsam yn ailgylchu neu gompostio 68.73% o'u gwastraff cartref – yr ail ganran uchaf yng Nghymru
- Gwerth economi ymwelwyr yn Wrecsam wedi tyfu o £111.9m yn 2015/16 i £115.86m yn 2016/17.
- Gwaith adeiladu yng ngofod celfyddydau, diwylliant a marchnad newydd Wrecsam,– Tŷ Pawb – wedi ei ariannu yn rhannol gan Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn ogystal â Chyngor Celfyddydau Cymru - wedi dechrau a gyda'r bwriad o'i gwblhau yng Ngwanwyn 2018 gan roi llwyfan i stondinau marchnad, oriel, gweithdai a gofod perfformio.